
# Byw a bod o dan y ddaear


http://www.cooberpedy.sa.gov.au

- Adloniant
- Ble i aros
- Busnesau
- Mapiau
- Yr ardal
- Cysylltu â ni

## Coober Pedy





Tref yn ne Awstralia yw Coober Pedy - tua 850km i'r gogledd o Adelaide a 680km i'r de o Alice Springs. Os hoffech chi ddod i'n gweld ni, mae'n ddigon hawdd - ewch i'r adran mapiau.

Mae'r ardal yn sych ac yn ddiffaith. Does dim un blewyn o laswellt ar ein cwrs golff ni! Mae'n boeth iawn yma yn yr haf - rhwng 35o Celsiws a 50o Celsiws fel arfer, ond mae'r tymheredd yn gallu codi'n uwch na hynny hefyd! Anghyfforddus iawn, meddech chi, ond na, rydyn ni wedi dod o hyd i ffordd wych o gael y gorau ar y gwres - rydyn ni wedi creu cartrefi, siopau a hyd yn oed gwesty o dan y ddaear ac mae'r rhain yn gyfforddus o oer - hyd yn oed ar ddyddiau poethaf y flwyddyn!

### Dyma ychydig o'n hanes ni ...

Yn 1915, roedd grŵp o ddynion - Jim Hutchinson a'i fab, William, a oedd yn 14 oed, P.J.Winch ac M. McKenzie - yn gwersylla yn yr ardal. Roedden nhw wedi bod yn chwilio am aur yn y de ond heb lwc. Tra oedden nhw yn yr ardal yma, penderfynodd William fynd i grwydro ychydig a darganfyddodd rywbeth gwerthfawr iawn. Na, nid aur, ond opalau - cerrig gwerthfawr sy'n cael eu defnyddio mewn gemwaith. Dyna ddechrau'r diwydiant opalau a dyfodd i fod mor bwysig i Coober Pedy.

Gyda datblygiad y rheilffordd yn 1917, daeth mwy o bobl i'r ardal, yn eu plith cyn-filwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedden nhw'n dod i "wneud eu ffortiwn" drwy chwilio am opalau. Yn ôl rhai pobl, dyma pryd y dechreuodd pobl fyw o dan y ddaear (ond mae'n debyg bod pobl wedi bod yn gwneud hynny yn Burra yn yr 1850au, lle roedden nhw'n cloddio am gopr). Wrth i'r dynion gloddio am yr opalau, roedden nhw'n gwneud tyllau mawr yn y ddaear. Felly, penderfynon nhw fyw yn y tyllau hyn. Os oedden nhw eisiau mwy o le - neu fwy o "ystafelloedd" - yr unig beth roedd rhaid iddyn nhw ei wneud oedd cloddio mwy! Syml!

Yn ystod y 1930au a'r 1940au, syrthiodd prisiau opalau ac ychydig o bobl oedd yn cynhyrchu'r opalau, ond yn 1946, daeth dynes o'r enw Tottie Bryant o hyd i opal arbennig iawn ac ail-ddechreuodd pobl dyrru i'r ardal.

Datblygodd y diwydiant cloddio am opalau eto yn ystod y 1960au a'r 1970au a thyfodd Coober Pedy yn dref bwysig iawn. Bellach, mae'r dref yn cael ei hadnabod fel "Prifddinas Opalau'r Byd."

Erbyn heddiw, mae Coober Pedy yn gartref i filoedd o bobl o bob rhan o'r byd - llawer ohonyn nhw'n gweithio yn y diwydiant opalau o hyd. Ydyn, rydyn ni'n dal i gloddio am opalau, ond yn ogystal, mae'r ardal yn llwyddo heddiw oherwydd bod tua 100,000 o ymwelwyr yn dod yma bob blwyddyn. Maen nhw'n dod i weld y tir diffaith drostyn nhw eu hunain, i ddysgu am y diwydiant opalau ac i ymweld â'r 'byd tanddaearol' - yr eglwys a'r capel, yr amgueddfeydd, yr orielau celf, y siopau opalau, a'r mwyngloddiau opal. Os ydych chi'n meddwl dod, does dim angen i chi boeni am sut byddwch chi'n anadlu o dan y ddaear oherwydd mae siafftiau cul, fertigol yn caniatáu i ddigon o awyr iach ddod i mewn i'r lleoedd hyn.

Rydyn ni'n dal i fyw o dan y ddaear ac mae rhai pobl yn dal i greu cartrefi newydd yno - ond heddiw, maen nhw'n defnyddio driliau i'w creu yn hytrach na chloddio â rhaw. Pam na ddewch chi i'n gweld? Bydd hi'n werth yr ymdrech!